

Cyfarfod Pwyllgor Eiddo Nos Fawrth 26ain o Dachwedd 2019,
yn Ystafell Glaslyn , Y Ganolfan , Porthmadog.

Presennol : Cynghorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd), Aled Griffith, Nia Jeffreys, Ian Jones, Glenda Burke (Clerc).

Ymddiheuriadau : Cynghorwyr : Selwyn Griffiths, Llywelyn Rhys.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Gwilym Jones.

Llwybrau

Nodwyd nad oedd unrhyw broblemau wedi eu hadrodd i'r Clerc.

Adroddodd y Cyng. Ian Jones ei fod wedi sylwi ar lwybr wedi cael ei arall gyfeirio rhwng Borth y Gest a Garreg Wen. Roedd yr arwydd llwybr wedi ei dynnu ac arwydd 'footpath' wedi ei osod ar wal y tŷ – Windy Ridge. Roedd wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a danfon lluniau iddynt ac wedi derbyn ateb eu body n delio efo'r mater.

Penderfynwyd: derbyn y wybodaeth a chadw llygaid ar y llwybr yma.

Cae Chwarae Bodawen

Nodwyd nad oes unrhyw broblemau wedi eu hadrodd a'r parc yn daclus.

Mae Breuddwydion Bro wedi cynnig 17eg o Ragfyr fel dyddiad i gyfarfod ac mae'r Cadeirydd ar gael i fynychu. Lleoliad y cyfarfod i'w gadarnhau ganddynt.

Penderfynwyd: derbyn y wybodaeth a'r Cadeirydd i adrodd yn ôl ym mis Ionawr 2020.

Bryn Coffa

Adroddodd y Clerc ei bod wedi trefnu fod Gyngor Gwynedd wedi clirio'r safle i sicrhau ei fod yn daclus cyn Sul y Cofio . Ar ôl Sul y Cofio roedd Barry o Gyngor Gwynedd wedi mynd yna i osod y plethdorchau tu o'r i'r wifren . Roedd un neu ddau wedi chwythu yn y tywydd garw ond roedd wedi cael gafael arnynt. Adroddodd y Clerc ei bod wedi bod yn clirio'r plethdorchau ym mis Ionawr a gofynnodd a yw hyn yn dderbyniol ?

Penderfynwyd : Y Clerc i glirio'r plethdorchau ym mis Ionawr yn ôl yr arfer.

Cae Pawb

Nodwyd fod popeth i weld yn rhedeg yn esmwyth iawn gyda phwyllgor rhandiroedd Cae Pawb yn gweithio yn ddiwyd. Nid oes dim problemau wedi eu hadrodd a nododd y Clerc y bydd 2 blot ar gael yn y flwyddyn newydd a dim ond un enw ar y rhestr aros . Roedd un plot wedi disgyn trwodd oherwydd salwch. Trafodwyd y pris am blot a chytunwyd i argymell cadw'r pris yn £15 y flwyddyn am blot llawn a £7.50 am hanner plot.

Penderfynwyd: argymell cadw'r pris yn £15 y flwyddyn am blot llawn a £7.50 am hanner plot. Cynigwyd hyn gan y Cyng. Nia Jeffreys , eiliwyd gan y Cyng. Ian Jones.

Llochesi Bws

Roedd y Cyng. Aled Griffith wedi sylwi swyddogion o Gyngor Gwynedd wedi bod o gwmpas Tremadog I weld yn mesur ar gyfer llochesi bws. Adroddodd y Clerc fod Tremadog wedi bod ar y rhestr aros ers blynnydoedd maith ac wedi bod yn cyfathrebu yn rheolaidd efo Gyngor Gwynedd. Yr ateb bob amser oedd for Tremadog ar y rhestr . Mae'n edrych yn debyg fod Tremadog wedi cyrraedd top y rhestr. Cynigiodd y Cyng. Aled Griffith y dylid ysgrifennu i gadarnhau hyn a gofyn a fydd ymgynghoriad o ran dyluniad/ maint ayb. Cynigwyd gwelliant gan y Cyng. Nia Jeffreys I ofyn hefyd pryd fydd y gwelliannau yn digwydd i'r lloches bws ger yr orsaf drên fel rhan o'u prosiect uwchraddio llochesi bws ar wasanaeth y T2.Roedd i fod i gychwyn cyn y Nadolig. Derbyniwyd y gwelliant ac roedd pawb yn gytûn..

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

Cerflun Mr Maddocks

Penderfynwyd : nad oedd dim problemau wedi eu hadrodd.